Y Mot, Llys-y-frân a Threfelen

Y Mot • New Moat • Llys-y-frân • Bletherston • Trefelen

Cynllun Gweithredu

Rhan-ariennir prosiect 'Cefnogi Cymunedau' PLANED gan Yr Undeb Ewropeaidd Amcan 1 (EAGGF)
a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cronfa Adfywio Lleol, Amgylchedd Cymru
a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

CYNLLUN GWEITHREDU
Y MOT, LLYS-Y-FRÂN A THREFELEN

Paratowyd gan

GYNGOR CYMUNED Y MOT

mewn cydweithrediad â

PLANED

Cynnwys

Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen

Cefndir i'r Cynllun Gweithredu

Hanes y Gymuned

Cynllun Gweithredu:

1. *Adnoddau Cymunedol*
2. *Etifeddiaeth, Diwylliant a Hanes*
3. *Amgylchedd*
4. *Busnes a Thwristiaeth*
5. *Cludiant a Phrif-ffyrdd*
6. *Chwaraeon a Hamdden*
7. *Tai*

Cytunwyd y Cynllun Gweithredu hon mewn cyfarfod cyhoeddus ar 9ed Gorffennaf 2003, yn dilyn cylchrediad i breswylwyr cymunedau Y Mot, Llys-y-frân a Trefelen.

CYFLWYNIAD & FFORDD YMLAEN

Bwriad y Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Y Mot, Llys-y-frân a Threfelen yw amlinellu'r materion a'r syniadau a nodwyd gan breswylwyr, ac a fyddent o'u gweithredu dros y blynyddoedd nesaf yn gwella ansawdd bywyd o fewn y gymuned, trwy hyrwyddo golwg yr ardal, gwella'r economi, gan gynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, a chryfhau ac arallgyfeirio ei hatyniadau ar gyfer yr holl breswylwyr ac ymwelwyr.

Trwy baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn sy'n cael ei arwain gan y gymuned, ac sy'n pwysleisio'r manteision y gellir eu sicrhau o fabwysiadu agwedd integredig, gobeithir denu cefnogaeth a chyllid o'r sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni'r amrywiaeth o *brosiectau ac amcanion* sy'n cael eu disgrifio yn Y Cynllun. Fe ddeellir er na fydd rhai o'r cynigion efallai yn llwyddo i gael eu cyllido yn y dyfodol agos, mae trigolion lleol yn teimlo'n gryf y dylid eu cynnwys.

Mae'r sawl sy'n cyfrannu at Y Cynllun Gweithredu yn sylweddoli mai'r ffordd orau o sicrhau cynnydd yw trwy drafodaeth a phartneriaethau gan fod nifer o'r cynigion yn ymwneud ag *amrywiaeth* o berchentyaeth tir neu eiddo, diddordebau amrywiol a ffynonellau gwahanol o gyllido. Er bod rhai o'r cynigion yn gymharol ddinod, mae nhw'n debygol o fod o fantais sylweddol i grwpiau arwyddocaol o fewn y *gymuned leol*. Mewn achosion eraill mae'r newidiadau sy'n cael eu hargymell ar raddfa fwy ac o bosib yn debygol o gael effaith sylweddol ar ystod eang o ddiddordebau.

Y gobaith yw y bydd y prosiectau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn yn cael eu gwireddu mor gyflym ag sy'n ymarferol gyda'r partneriaid amrywiol yn cydweithio i ddylunio, cyllido a chyflawni'r cynlluniau. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gwahodd darpar bartneriaid i wireddu yr amrywiol gynigion.

Mae swm sylweddol o gyllid wedi ei neilltuo i'r ardal o dan gynllun Amcan 1 UE a'r gobaith yw y gellir defnyddio'r arian hwn i gyllido nifer o brosiectau sydd wedi eu nodi.

Mae'r gymuned yn rhan o Ward Maenclochog ac mae Grŵp Ardal wedi ei ffurfio er mwyn cydweithio a chytuno a bwrw mlân â cheisiadau cyllido Amcan 1 Blaenoriaeth 3. Mae cais eisoes wedi ei wneud am Swyddog Cymunedol a fydd yn cefnogi cymunedau i wireddu cynigion y Cynllun Gweithredu.

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Ym mis Ionawr 2003 gwahoddwyd PLANED (Pembrokeshire Local Action Network for Enterprise and Development / Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro er Menter a Datblygu)) gan Gyngor Cymuned Y Mot i gydweithio er mwyn sefydlu Fforwm Cymunedol o grwpiau gwirfoddol a chymdeithasau ac i ffurfio Cynllun Gweithredu Cymunedol. Roedd y gwahoddiad yn pwysleisio cyfranogiad pob oed a chynrychiolwyr o bob haen o'r gymuned. Roedd gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni gan y gymuned gan gynnwys ymarferiad *Cynllunio ein Hyfory* ym mis Medi 2001.

Roedd y gymuned eisoes wedi dechrau gweithio gyda PLANED trwy gyfrannu i Grŵp Menter Ardal. Ym mis Ebrill 2002 trefnwyd cyfarfod yn Ardal Gogledd Ddwyrain Canol Sir Benfro pan fu'r cyfranogwyr yn nodi cryfderau, gwendidau a chyfleon ar gyfer yr ardal leol. O ganlyniad i hyn cynhaliwyd ymarferiad *Atal y Golled* fel rhan o raglen *Leader + Creu Diwylliant o Entrepreuneriaeth.* Fe'i cynhaliwyd dros ddwy noson ym mis Gorffennaf 2002, y gweithdy cyntaf yn Llys-y-frân a'r ail ym Mynachlog ddu. Bwriad y rhaglen yw cryfhau economi ardaloedd lleol trwy dynnu at ei gilydd pobloedd o gymunedau gwledig i glustnodi cyfleon menter newydd ar sail adnoddau lleol – dynol, naturiol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Cynhaliwyd cyfarfod pellach yng Ngwesty Nant-y-ffin, Llandysilio.

HANES Y GYMUNED

Mae ardal y Cynllun Gweithredu yn cynnwys pentrefi Y Mot, Llys-y-frân a Threfelen (sydd hefyd yn cynnwys Penffordd) Daw'r pentrefi o dan Gyngor Cymuned y Mot.

Y MOT

Deuir o hyd i blwyf Y Mot ar ffin ieithyddol y Lansger lle mae De Sir Benfro yn cyffwrdd â Mynyddoedd y Preselau. Wedi ei leoli ar un o ganghennau Afon Cleddau mae iddo gyfran helaeth o dir gweirglodd, tir âr a thir pori, oll wedi ei gau i mewn ac mewn cyflwr da o hwsmonaeth. Mae'r wlad o gwmpas yn amrywiol ac yn cynnwys nodweddion diddorol o olygfeydd mynyddig.

Mae Y Mot, *Nova Mota*, New Moat yn tynnu ei enw o gnwcyn ffug (o fewn pellter byr o'r eglwys) sydd wedi ei amgylchynu gan ffos ddofn y gellid yn hawdd ei llenwi â dŵr. Credir iddi gael ei chreu yn ystod gwladychiad y Normaniaid er mwyn diogelu'r preswylwyr

rhag ysbeilwyr. Gellir ystyried Y Mot fel un o'r esiamplau gorau o bentref Normanaidd nodweddiadol, ac roedd yn un o nifer o gymunedau newydd a blannwyd yn ystod y 12ed ganrif gan arglwyddi Normanaidd a'u poblogi gan goloneiddwyr Fflemaidd neu Saeson gweithgar. Does yna fawr o gofnod o breswylwyr cyn i'r Normaniaid ymsefydlu.

Un o nodweddion amlyca'r pentref yw eglwys hynafol St Niclas sy'n dyddio o'r cyfnod hwn. Er gwaethaf ei chychwyn Normanaidd, yn union fel nifer o eglwysi o fewn y sir, fe gafodd ei chodi'n gadarn a'i hymestyn yn ystod y canol oesoedd a'i hadfer yn sylweddol yn ystod y cyfnod Fictoranaidd. Mae'r eglwys yn gofgolofn deilwng i deulu'r Scourfield a fu'n amlwg iawn yn yr ardal am sawl canrif. Mae beddfaen teulu'r Scourfield i'w chanfod o dan yr eglwys gyda'r arwyddlun teuluol ar yr eirch plwm cain.

Mae cychwyniad teulu'r Scourfield yn rhan o ddirgelwch a chwedloniaeth liwgar leol. Un o'r straeon mwyaf poblogaidd a adroddir yw am ymweliad y Brenin John â'r ardal yn 1210 pan fu'n aros gyda Esgob Llawhaden. Y Scourfields ar y pryd oedd coedwigwyr yr Esgob ac fe gyflwyno'n nhw filgi i'r Brenin er mwyn iddo rasio yn erbyn ei filgi ei hun. Pan gurodd ci'r Scourfield's gi y Brenin fe roddwyd yr enw `scour the field` i'r coedwigwr a'i deulu. Ar ôl y diwygiad a diddymu'r mynachlogydd fe gasglodd y Scourfields laweroedd o dir o gwmpas Y Mot. Roedd yr ystad yn ymestyn ymhell gydag eiddo yn Nanhyfer yn y Gogledd a Dinbych-y-pysgod yn y De. Gadawodd y Scourfields Y Mot yn y 18ed ganrif ac o'r 19 ganrif ymlaen fe fuon nhw'n byw yn Williamston ger Burton. Mae eu plasty bellach yn adfeilion ond, fodd bynnag, mae disgynyddion uniongyrchol o deulu'r Scourfield yn byw ymhob rhan o'r sir.

Roedd y plwyf yn ferw o weithgarwch yn y 19 ganrif. Roedd ffermydd ar y cyfan yn fwy o faint nag ydyn nhw heddiw ac yn cyflogi gweithlu mwy niferus. Ar un adeg adwaenid y pentref fel Pentreffos sydd felly yn tanlinellu ei ddeuoliaeth o ran y rhaniad ieithyddol bondigrybwyll a elwir yn lansger. Ymhlith y crefftwyr yn y gymuned roedd gofaint, turnwyr coed, seiri a chiperiaid. Roedd crefydd yn ganolog o fewn y gymuned ac yn y 1800'au daeth nifer o enwadau crefyddol i'r amlwg, gyda'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn flaenaf. Fodd bynnag, Methodist yw'r unig ddau gapel o fewn y plwyf. Yn draddodiadol cynhelir y gwasanaethau ym Mhenffordd a'r Gwastad trwy gyfrwng y Gymraeg a'r gwasanaethau yn y tair eglwys trwy gyfrwng y Saesneg.

Ar un adeg roedd yna dy tafarn, `Ivy Bush` yn bodoli yn y plwyf ond heddiw mae'r adeilad wedi ei ddymchwel a'r safle wedi ei ail-ddatblygu. At bwrpas adloniant ac addysg cynhelid `*penny readings*` traddodiadol yn yr ysgol leol ym Mhenffordd. Byddai aelodau'r gymuned yn talu tâl mynediad o geiniog i wrando ar y canu a'r adrodd (gan amlaf yn Gymraeg). Roedd y prif wyliau a gynhelid yn y pentref ar hyd y flwyddyn yn cynnwys Gŵyl Mihangel ym mis Medi a Sant Niclas ym mis Rhagfyr. Ar adeg Gŵyl Mihangel y byddai tenantiaid y ffermydd yn draddodiadol yn newid ffermydd.

Llys-y-frân

Yn y 1800'au dim ond chwe fferm oedd yn Llys-y-frân. Fe gredir bod eglwys y plwyf yn dyddio nôl i'r 14 ganrif ac mae wedi ei henwi ar ôl un o ddisgynyddion cenhadaeth Gristnogol (Meilyr) a ddaeth i Orllewin Cymru o Amorica ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid yn y 5ed ganrif. Yn 1742 daeth Hywel Davies yn gurad yn Llys-y-frân ac yn ddiweddarach fe ddaethpwyd i'w adnabod fel `Apostol Sir Benfro` ar ôl iddo sefydlu cenhadaeth Fethodistaidd yn y Wystwg.

Wedi ei lleoli ar gnwc o dir roedd y pentref yn edrych i lawr ar ddyffryn dwfn Syfynwy. Mae ei enw o'i gyfieithu yn golygu `Llys y brain` sef preswylwyr gwreiddiol y plwyf, ac fe gafodd ei sillafu mewn nifer o ffyrdd gwahanol dros y canrifoedd; Llyseyvraen, llysfrane, Llecevrane, Lesyevpayn.

`Bran` yw'r enw Cymraeg am `crow` ac mae hefyd yn enw ar un o gymeriadau chwedlau y Mabinogion.O ganlyniad fe fu dyfalu fod yna gysylltiad o bosib rhwng y gymuned a'r Mabinogion!

Fe welodd y plwyf lawer o newidiadau wrth i eiddo newid dwylo. Fodd bynnag, mae rhai teuluoedd yn eu pedwaredd genhedlaeth. Mae ystad Southfield wedi bod yn breswylfan i rai o deuluoedd mwyaf nodedig Sir Benfro. Yn wreiddiol yn eiddo i deulu'r Wogan o Gaswys tan y 1500'au, fe fu wedyn am chwe chenhedlaeth yn eiddo i deulu'r Phillipiaid. Yn ei anterth yn y 19 ganrif roedd yr ystad yn cynnwys tua 1000 o aceri a than werthiant tir diweddar, roedd teulu'r Southfield yn berchen ychydig o dan draean o holl dir y plwyf.

Mae'n dipyn o syndod, o gofio'r pellter o'r arfordir, fod Llys-y-frân yn gartref i nifer o forwyr. Y mwyaf nodedig yw Capten George yn y 1800'au a fu'n dal y record am hwylio llong o Dde Amorica i'r DU.

Gellir priodoli nifer uchel y morwyr o fewn y plwyf i'r ffaith fod cymaint o fechgyn lleol wedi eu recriwtio yn brentisiaid. Mae nifer wedi eu claddu ym mynwent yr eglwys.

Cyn 1970'au roedd y pentref bychan hwn yn Sir Benfro yn ddi-sôn amdano. Ym 1971 gyda chwblhau'r gronfa 100tr o uchder fe grëwyd llyn 200 cyfer yn y dyffryn a ffurfiwyd parc gwledig o fewn y gelltydd a'r tir pori amgylchynol. Daeth y llyn yn fuan yn boblogaidd gan y rheiny oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu yn chwilio am dangnefedd y parc. Mae rhannau uchaf y llyn yn boblogaidd gan wylwyr adar a gellir gweld amrywiaeth o adar anghyffredin yno yn arbennig hwyaid a gwyddau sy'n ymfudo.

Er na chafodd tai nac adeiladau eu boddi o dan ddyfroedd dyfnion y llyn, roedd y colli tir yn effeithio'n ddifrifol ar ffermydd y pentref ac fe gafodd y tir oedd yn weddill ei werthu a'r ffermdai a'r tai mas o ganlyniad yn wag. Mae bygythiad adfeilio wedi ei osgoi wrth i nifer o'r adeiladau hyn gael eu haddasu yn hafanau gwyliau.

Wrth adfeilion Fferm Cwmderi ar lawr y dyffryn mae carreg goffa yn coffáu cyfansoddwr yr emyn-don fyd-enwog `Blaenwern`. Cafodd William Penfro Rowlands ei eni yng Nghwmderi ond pan oedd yn aros gyda pherthnasau ar fferm o'r enw Blaenwern yn Nhwffton gerllaw y cyfansoddwyd yr alaw. Mae hefyd wedi ei chyhoeddi mewn llyfr emynau Tsineieg mae'n debyg.

Mae Llys-y-frân yn brolio Clwb Ffermwyr Ieuanc llewyrchus sy'n cyfarfod mewn adeilad ysgol gwag drws nesaf i'r capel Presbyteraidd yn Gwastad.

Trefelen a Phenffordd

Mae Trefelen hefyd yn cael ei adnabod fel Bletherston ac mae'r eglwys yno wedi ei chysegru i St Elen, y Gymraes a oedd yn wraig i Magnus Maximus neu Macsen Wledig. Mae'r enw Saesneg yn cyfeirio at bentref gwr o'r enw Bleddri. Mae'r eglwys gyda'i mynwent drionglog yn brolio llyn darluniadol yn ei hymyl.

Caiff stori ei hadrodd yn gyson am was a morwyn a gyflogwyd yn Ffair Maenclochog sy'n tanlinellu deuoliaeth ieithyddol yr ardal. Cafodd y gwas ei gyflogi i edrych ar ôl y ceffylau yn Bletherston a'r forwyn i odro'r gwartheg yn Nhrefelen. Ar ôl i'r ddau gyrraedd adre gyda'r meistr newydd fe sylweddolon nhw taw'r un oedd Bletherston a Threfelen.

Cafodd capel anenwadol ei godi ym Mhenffordd yn 1896 wrth ymyl y capel Methodistaidd presennol ac fe'i hadwaenid yn ôl yr enw Y Bwthyn. Tan yn ddiweddar roedd yna ysgol gynradd yn y pentref.

1 – Adnoddau'r Gymuned

Sylwadau
Mae gan y gymuned draddodiad o drefnu cyngherddau lleol, gwyliau a digwyddiadau yn bennaf er mwyn codi arian i gapeli, eglwysi, CFfI ac ati. Mae'r digwyddiadau yma yn gymorth i dynnu'r gymuned at ei gilydd, er bod angen mwy o ymwneud lleol ac ysbryd cymunedol i sicrhau llwyddiant digwyddiadau cymunedol y dyfodol – mae yna *deimlad* taw'r un bobl sy'n *trefnu'r rhelyw o ddigwyddiadau* yn y pentrefi. Mae llawer o bobl newydd wedi symud i mewn i'r ardal ac fe ddylid eu hannog i gymryd rhan.

Ymhlith y digwyddiadau cyfredol o fewn y gymuned mae'r `Ddringfa Geir` a chystadlaethau pysgota cyson ym Mharc Gwledig Llys-y-frân; mae Gorymdaith Tractorau o Dras yn teithio trwy'r pentref ac mae digwyddiadau ar gyfer cerbydau `Oddiar-Ffordd` yn digwydd yn gyson ar Fferm Parc-cwêd.

Mae digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan grwpiau cymunedol yn cynnwys Diwrnod Mabolgampau blynyddol wedi ei drefnu gan Gymdeithas Trigolion Hyn a Phlant Y Mot, sy'n codi arian i ddarparu parti Nadolig i'r plant a chinio Nadolig i'r oedrannus. Mae CFfI Llys-y-frân yn cynnal Dawns Flynyddol i godi arian a Choelcerth Guto Ffowc ym Mharc Gwledig Llys-y-frân. Mae Gyrfa Chwist Dydd Mawrth Ynyd yn cael ei drefnu gan Eglwys Y Mot i godi arian.

Mae yna rai digwyddiadau nad ydyn nhw bellach yn cael eu cynnal e.e. y Carnifal a Diwrnod Mabolgampau ym Mhenffordd wedi peidio pan gaewyd yr Ysgol Gynradd a dyw'r noson `Rhieni a Ffrindiau`, a oedd mor boblogaidd, ddim yn cael ei chynnal rhagor.

Mae amrediad o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Neuadd CFfI Llys-y-frân. Mae'r rhain yn cynnwys: Cyrsiau/Dosbarthiadau, partïon pentref, cyfarfodydd CFfI, cyfarfodydd Cyngor Cymuned, cyfarfodydd Trigolion Hyn, gweithdai a chyfarfodydd PLANED, etholiadau lleol, partïon pen-blwydd, partïon Nadolig, a chyfarfodydd capel.

Petai'r neuadd yn cael ei hadnewyddu a'i huwchraddio *byddai mwy o ddefnydd ohoni* am y byddai clybiau a chymdeithasau eraill yn ei llogi. Gellid ei defnyddio i greu mwy o weithgareddau ar gyfer preswylwyr y gymuned, yn arbennig y bobl ieuanc. Gellid cynnal gweithgareddau cerdd a drama a gellid gwneud defnydd helaethach gan y CFfI fel canolfan gweithgareddau ar gyfer pobl

ieuanc. Gallai'r canlynol fod yn bosib: Clwb Ieuenctid, dosbarthiadau nos gan gynnwys gwneud dillad a dosbarthiadau cyfrifiaduron, aerobig, sboncen, Urdd, man cyfarfod cymunedol, datblygiad Celf a Chrefft, chwaraeon dan-do, rhannu sgiliau (e.e. sgiliau traddodiadol fel turnio coed ac ati).

Mae yna ddymuniad cryf i weld Ysgol Penffordd yn cael ei defnyddio er budd y gymuned, naill ai fel cartrefi lleol fforddadwy, neu fel gweithdai busnes.

Cynigion

- Ymwneud y gymuned – Cynigir y dylid gwneud ymdrechion pellach i dynnu pobl leol i mewn i ddigwyddiadau a'u hannog nhw i gefnogi grwpiau lleol. Gellid gwireddu hyn trwy well hyrwyddo a cheisiadau am gymorth penodol a fedrai fod ar lun sgiliau ymarferol neu brofiad o hysbysebu digwyddiadau ac ati.
- Datblygu Neuadd CFfI Llys-y-frân– mae astudiaeth Iechyd a Diogelwch eisoes wedi ei gwblhau ac wedi dangos rhestr o anghenion pwysig ond does dim costau wedi eu hamcangyfrif eto. Bwriedir uwchraddio'r toiledau presennol i gynnwys darpariaeth i'r anabl, gwella gosodion ac addurniadau o ran dodrefn (byrddau a chadeiriau, llenni ac ati), gwella cyfleusterau storio, gwresogi, goleuadau a lloriau, a gwneud gwelliannau i'r maes parcio sydd yno.
- Parc Gwledig Llys-y-frân – mae potensial ar gyfer cynyddu ymwneud y gymuned ym Mharc Gwledig Llys-y-frân a'r Ganolfan Ymwelwyr. Mae perthynas eisoes yn bodoli e.e. cydweithrediad ar noson Coelcerth CFfI, ond fe ddylid chwennych cyfarfod i drafod potensial pellach o ran cynnal nosweithiau cymdeithasol yn y tŷ bwyta.
- Eglwys Y Mot – Cafwyd Cyllid Loteri Etifeddiaeth ar gyfer Datblygiad Rhan 1 o'r gwaith sydd ei angen ar dwr yr eglwys (i fod i'w gwblhau yn 2003); Datblygiadau Rhan 2 ar gyfer gwaith y tu fewn. Mae uwchraddio *y festri* i fod yn ystafell gymunedol (gwresogi, goleuo ac ati) yn angenrheidiol er mwyn ei defnyddio fel ystafell gyfarfod bychan. Mae angen cymhennu a glanhau cyffredinol yn y fynwent ac o gwmpas yr eglwys. Mae angen maes parcio hefyd yn ogystal â chyfleusterau tŷ bach ar gyfer aelodau ac ymwelwyr.
- Toiledau Cyhoeddus – mae prinder adnoddau lleol o fewn y gymuned, a thipyn o gonsýrn am fod y toiledau ond ar agor yr haf. *Cynigir* ymchwilio i'r posibilrwydd o gael gwell darpariaeth.

- Prif System Garthffosiaeth – gwahodd cynrychiolwyr o Dwr Cymru, y Cyngor Sir ac Asiantaeth yr Amgylchedd i drafod darparu prif system garthffosiaeth.
- Gosod ceblau dan ddaear - ymchwilio i osod pob cebl trydan a theleffon o dan ddaear
- Cyfleusterau Ailgylchu – gwneud cais am adfer `Cynllun Sgipiau Cymunedol` gan Gyngor Sir Penfro a gwybodaeth gyffredinol am reoli gwastraff. Mae cyfleusterau ail-gylchu cyfredol ym Maenclochog a Clarbeston Road – gellid hysbysu gwybodaeth o'r math yma mewn cylchlythyr cymunedol
- Gwell Cyfathrebu – mae yna deimlad cryf y gellid gwella cyfathrebu yn ddirfawr – gallai hyn fod trwy gyfrwng cylchlythyr a/neu gyfarfodydd cymdeithas gymunedol, er enghraifft. Pwysleisiwyd pwysigrwydd rhwydwaith gyfathrebu gref yn arbennig am fod llawer o bobol wedi symud i'r ardal yn y blynyddoedd diwethaf sy'n awyddus i gyfrannu a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol**.**
- Ysgol Penffordd – mae cymuned Penffordd yn dymuno cael amser i ymchwilio i bosibiliadau defnydd yn y dyfodol fel adnodd cymunedol i'r pentref.'

2 – Etifeddiaeth, Diwylliant a Hanes

Sylwadau
Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gweld fel rhan allweddol o etifeddiaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae yna ymdeimlad cryf dros ddiogelu a hyrwyddo etifeddiaeth ddiwylliannol a hanes yr ardal ymhlith y trigolion. Mae preswylwyr o'r farn ei bod yn hynod o bwysig i gofnodi hanes y gymuned er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae yna aelodaeth weithgar yn Eglwys Sant Meilyr Llys-y-frân sydd wedi cynhyrchu cofnod rhyfeddol o'r gorffennol ar gyfer y Milflwyddiant dan y teitl "Dathliad mewn geiriau a lluniau o bobl Eglwys Blwyf Llys-y-frân"

Er bod ymchwil sylweddol wedi ei wneud i hanes yr ardal, mae angen mwy o ymdrech. Mae grŵp hanes lleol yn bodoli ac mae bwriad i grynhoi hanes llafar o atgofion pobl lleol. Teimlir y dylai gwybodaeth am Drefelen gael ei ychwanegu at y cofnodion sydd eisoes yn Archifdy'r Sir. Cynnig arall yw ymchwilio i hanes teulu'r Scourfield ac Eglwys Y Mot. Teimla pobl y dylai ysgolion lleol gael eu hannog i ddysgu hanes yr ardal i'w disgyblion.

Mae gan GFfI Llys-y-frân ei hanes arbennig ei hun, ers ei sefydlu 51 mlynedd nôl a chynnal enw fel un o glybiau mwyaf llwyddiannus y sir. Mae ganddo aelodaeth gref ac eang yn ogystal â chefnogaeth leol oddi wrth breswylwyr y gymuned.

Cynigion

- Cadw Diwylliant Cymreig *yn fyw*– e.e cymanfaoedd canu, drama, Eisteddfod a llefaru. Gellid ymchwilio i a rhannu gweithgareddau eglwysi a chapeli e.e. Gymanfa Bwnc, Gymanfa Ganu a'r `penny readings`.
- Sgiliau Traddodiadol – Adfer sgiliau traddodiadol fel macsi gartref a hen arferion. Mae diddordeb mewn sgiliau amaethyddol traddodiadol fel torri pen clawdd, cneifio ac aredig.
- Grŵp Hanes Lleol – angen cefnogaeth. Fe ddylai'r dull presennol o gofnodi hanes gael ei ddatblygu a dulliau newydd eu hystyried e.e. technegau newydd o ran sganio lluniau teuluol a phaentiadau ac ati.
- Llyfr Hanes Cymunedol - byddai taflen neu lyfryn yn ffordd ardderchog o gofnodi hanes, yn ogystal â recordiadau clywedol o gyfweliadau â phobl leol
- Arddangosfa Hanes - gellid datblygu hwn a'i ddefnyddio fel ffordd o dynnu llawer o bobl at ei gilydd. Medrai fod yn rhan o gynllun neuadd y CFfI ar ei newydd wedd.
- Hanes Llafar cyfredol – angen ei gyfieithu fel ei fod ar gael i bawb
- Capeli ac Eglwysi Lleol – ymchwilio pellach i'w hanes a chynhyrchu taflen neu lyfryn i godi arian.
- Cynnal a Chadw'r Mot a'r Beili - er bod y rhain i'w canfod ar dir preifat, mae'r gymuned yn teimlo eu bod yn bwysig ac y dylid eu diogelu.
- Taflen Pentrefyn Trefelen **–** Mae yna daflen ar gael wedi ei chyhoeddi rai blynyddoedd nôl – mae'r gymuned yn awyddus i gynnwys gwybodaeth h.y. y teulu Colby , Mabinogion a'r cyfnod Rhufeinig.'

3 – Amgylchedd

Sylwadau

Mae'r ardal yn hynod o brydferth yn llawn o olygfeydd naturiol heb eu sbwylio. Gall frolio ardaloedd eang o goed a mannau naturiol gwledig a rhwydwaith da o lwybrau. Mae Parc Gwledig a Chronfa Ddŵr Llys-y-frân yn atynfa amgylcheddol i breswylwyr ac ymwelwyr i'r ardal.

Cynigion

- **Hyrwyddo'r Pentrefi** – gellid gwella atynfa a golwg gyffredinol y pentrefi. Mae angen Astudiaeth Bentref. Dylai gynnwys materion tebyg i ffwrwmau, gwell a chliriach arwyddion dwyieithog yn ogystal ag ardaloedd glas, pamau blodau a basgedi crog.
- **Mynwent a Llyn Eglwys Trefelen** – byddai cymhennu cyffredinol, gwella a chynnal a chadw y nodweddion yma yn annog hyrwyddant bywyd gwyllt naturiol. Mae angen atgyweirio mur yr eglwys.
- **Eglwys Llys-y-frân –** mae hon yn atyniad sylweddol i ymwelwyr sy'n cynnwys yr eglwys fel rhan o deithiau cerdded o'r Parc Gwledig. Mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r fynwent.
- **Hyrwyddiannau Parc Gwledig Llys-y-frân –** gallai tirlunio ardaloedd o fewn y Parc gan gynnwys cerfiadau awyr agored, fel modd o ddehongli, hyrwyddo golwg gyffredinol y Parc a gwella ansawdd profiad yr ymwelydd.
- **Ardal Bywyd Gwyllt Pentrefol** – mae darn o dir comin ger y fynedfa i Gronfa Llys-y-frân ar hyn o bryd wedi gordyfu ond fe ellid ei ddatblygu a'i hyrwyddo er mwyn creu llyn pentref ac ardal bywyd gwyllt. Byddai byrddau picnic, blodau a llwyni, ynghyd â mynedfa briodol i'r anabl, yn hyrwyddo'r ardal. Byddai'n denu preswylwyr ac ymwelwyr i fwynhau'r tangnefedd amgylchol. Cam cyntaf fyddai sefydlu pwy sy'n berchen y tir ac mae'n bosib y byddai hwn yn brosiect addas i'r CFfI.
- **Sefydlu Grwpiau Amgylcheddol** – clustnodi a denu gwirfoddolwyr o fewn y gymuned i weithio ar brosiectau amgylcheddol ar gyfer ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Gallai prosiectau posib gynnwys Mynwent Llys-y-frân (gan gynnwys atgyweirio a chynnal a chadw'r rheiliau), cynnal a chadw Llyn Porthdy Y Mot, diogelu'r muriau cerrig yn y gymuned, clirio llwybrau a gweithio ar Gomin Llys-y-frân. Byddai unrhyw waith ar dir preifat yn amlwg yn ddibynnol ar ganiatad y perchennog. Er mwyn bod yn gynaliadwy rhaid cytuno ar raglen gynnal a chadw.
- **Llwybrau Marchogaeth -** mae angen clirio ac uwchraddio llwybrau marchogaeth Forlan, Y Mot, Feidir Isha a Ffynnonfair gan fod marchogaeth ar y ffyrdd yn beryglus.
- **Cynllun Gwobr Pentref Taclusaf -** gallai pob pentref gynnig yn y gystadleuaeth hon unwaith y byddai'r cynlluniau hyrwyddo pentref wedi eu cwblhau. Mae Y Mot wedi ennill yn y gorffennol.

4 – Busnes a Thwristiaeth

Sylwadau

Un o brif atyniadau twristiaeth y gymuned yw Parc Gwledig Llys-y-frân a'r Ganolfan Ymwelwyr sy'n cynnwys tŷ bwyta. Fodd bynnag, mae potensial sylweddol i ehangu'r cyfleon busnes a thwristiaeth ar sail y nodweddion a gynigir e.e. yr argae a'r rhiwiau, y gelltydd a'r adnoddau hwylio a physgota. Dylid annog trigolion lleol i gefnogi'r gweithgareddau yn y Parc er mwyn gwireddu potensial llawn i greu cyflogaeth i bobl leol.

Mae safleoedd busnes o fewn y gymdogaeth yn hynod o brin ac mae prinder cyllid yn rhwystr i'r busnesau sydd yma eisoes. Mae pobl ieuanc yn arbennig yn ei chael yn anodd I ganfod gwaith yn lleol, ac fe awgrymir targedu sectorau Amaethyddiaeth, Crefftau a Thwristiaeth er mwyn ceisio datblygu cyfleon swyddi i bobl leol.

Sefydlwyd Grwp Busnes cymunedol rai blynyddoedd nôl. Bu'n trafod materion a threfnu ymweliadau. Mae rhai prosiectau wedi deillio o hyn, megis datblygu coedtiroedd.

Cynigion

- **Adnoddau Naturiol** – defnyddio prydferthwch naturiol yr ardal, golygfeydd a'r amgylchedd dymunol trwy ymchwilio ymhellach i ddatblygiadau a photensial ymwelwyr o amgylch yr adnoddau hyn e.e. gwyliau thematig, twristiaeth eco - gwarchodfeydd natur, cerdded, merlota a llwybrau seiclo oddi ar y ffordd.
- **Gwell Marchnata** - Mae prinder gwybodaeth ynghylch ble i farchnata nwyddau o fewn y gymuned – ymchwilio i gael band llydan ar gyfer busnesau yn yr ardal.
- **Unedau Gweithdai Cychwynnol** – archwilio cyfleon i greu unedau gweithdai i ddatblygu hyfforddiant pellach a datblygu sgiliau newydd a thraddodiadol. Cefnogi datblygiad amgen o adeiladau amaethyddol gwag i ddarparu gweithdai crefftau a diwydiannau ysgafn. Mae'r gymuned hefyd yn awyddus i ymchwilio i'r potensial defnydd sydd i Ysgol Penffordd.
- **Cyngor Busnes** – ymchwilio i gael gafael ar wybodaeth yn haws i bobl leol e.e cynllun Gateway sy'n cael ei weinyddu gan y Cyngor Sir ac sy'n cynnig mynegbyst i ganfod cyngor i fusnesau.

- **Cyfeirlyfr Busnes** – cyfrannu at gyfeirlyfr busnes lleol yn hybu busnesau lleol er mwyn I fwy o bobl wybod am eu bodolaeth.
- **Ymchwilio cyfleon i sefydlu busnesau newydd** - e.e. gelltydd coed caled, amaethyddiaeth, twristiaeth, celf a chrefft (e.e. oriel gelf), canolfan ail gylchu olew, mwy o gyfleusterau siopa, Swyddfa Bost, tafarn, gweithdy saer, peirianwyr ac ati.
- **Annog mwy o gyfleon cyflogaeth lleol**, yn arbennig ar gyfer yr ieuanc ac annog ieuenctid i ddod i fyw ac i weithio yn yr ardal.
- **Ynni Adnewyddol** – ymchwilio i'r posibilrwydd o greu ynni lleol amgen e.e. generadur heidro-trydanol yn yr argae; ffermydd gwynt lleol a dulliau eraill o gynhyrchu ynni amgen
- **Gwyliau Thematig** - datblygu gwyliau cyfnodau byr ar sail celf a chrefft, paentio, gyrru oddi ar y ffyrdd, argae ac ati. Rhaid creu rhagor o letyau Gwely a Brecwast er mwyn darparu llefydd mwy hyblyg.
- **Ymchwilio i ailagor siop/Swyddfa Bost/ tafarn** yn Y Mot, o bosib fel menter gydweithredol. Cefnogi gwasanaethau cyfredol e.e. angen gwell cyhoeddusrwydd i'r siop deithiol, er enghraifft, trwy gylchlythyr cymunedol.

5 – Cludiant a Phrif-ffyrdd

Sylwadau

Mae prinder cludiant cyhoeddus yn y gymuned – mae gwasanaeth trên drud a diffygiol yn golygu cysylltiadau gwan gyda threfi cyfagos. Mae'r pentrefi yn y gymuned braidd allan ohoni, ac mae'n rhaid i'r trigolion deithio gyda char. Mae angen gwelliannau i'r ddarpariaeth cludiant cyfredol a gwell cyhoeddusrwydd.

Mae yna hefyd gonsýrn mawr ynghylch ansawdd wyneb y ffyrdd – mae'r rhan fwyaf o'r ffyrdd yn arw a brwnt. Mae yna deimlad fod yna ddiffyg cyffredinol o ran cynnal a chadw a gwella'r ffyrdd yn rheolaidd yn yr ardal.

Mae gyrru'n gyflym yn cael ei weld gan y mwyafrif fel problem arall, ynghyd â chroesffyrdd tywyll a diogelwch cerddwyr.

Cynigion

- **Arafu trafnidiaeth –** ymchwilio i'r posibilrwydd o gael plismyn cwsg neu ddulliau eraill o arafu trafnidiaeth, mewn mannau amrywiol yn yr ardal. Ydi hi'n bosib cyflwyno system `camu i lawr` o ran arwyddion cyfyngu cyflymdra h.y. arwydd 40mya yn camu lawr i 30mya o fewn daugan llath i sicrhau bod

trafnidiaeth yn arafu. Un man penodol sydd ei angen ei wella yw croesffordd Rhyd-ddu/Brynsiriol.

- **Diogelwch ffyrdd –** mae'r darn o ffordd yn ymyl Twmpath yn cael ei danlinellu fel mater o gonsýrn, e.e. angen arwydd `Aros` lle mae Heol Penlan yn cyfarfod â ffordd Y Mot i Faenclochog; dewis arall byddai dileu'r system unffordd.
- .**Wynebau ffyrdd** – mae angen mwy o sylw ac uwchraddio yn ogystal â glanhau'r ffosydd yn fwy rheolaidd. Dylid annog pobl i lanhau ar ôl gweithgarwch cerbydau eger.
- **Arwyddion Ffyrdd –** Angen gwell arwyddion dwyieithog yn gyffredinol.
- **Torri Pen Cloddiau a Lledu Ffyrdd** – mwy o dorri pen cloddiau rheolaidd er mwyn gwella gweledegdd yn arbennig ar groesffyrdd. Angen lledu'r ffordd ar Rhiw Egrmwnt.
- **Palmentydd** – Mae angen palmant rhwng pen isa Y Mot a'r groesffordd ger y gysgodfan bws oherwydd pryder am ddiogelwch. Mae angen palmant ger y gysgodfan bws yn Y Mot. Ymchwilio i lwybr diogel i'r ysgol.
- **Cysgodfeydd Bws** – mae angen gwella'r cysgodfeydd bws yn y Mot. Mae angen cysgodfa bws ar gyfer plant ysgol yn Llys-y-frân, ond gallai gael ei ddefnyddio hefyd gan y cyhoedd wrth ddisgwyl rhywun i'w codi i fynd i ymarferion a chyfarfodydd. Gellid ei leoli yn Gwastad.
- **Gwasanaethau Bws** – mae angen gwella'r gwasanaeth bws ysgol cyfredol, yn arbennig i Syr Thomas Picton ac Ysgol y Preseli. Ystyrir bod angen aildrefnu bws Dydd Mawrth a Dydd Sadwrn i Hwlffordd er mwyn galluogi *mwy* o bobl i ddefnyddio'r cyfleuster yma – at bwrpas gwaith, yn ogystal â chydlynu â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn Hwlffordd, Crymych ac Abergwaun. Hefyd, mae angen gwasanaeth bws ar gyfer Penffordd.
- **Sefydlu Grŵp Cludiant Cymunedol** – datblygu gwell gwasanaethau megis cynllun `Gwaedd a Chodi` neu *fws cymunedol,* teithiau rhatach a chynnig a mwy o gyrchfannau a siwrneioedd hwylus.

6 – Chwaraeon & Hamdden

Sylwadau

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd yw nofio, cerdded a phêl-droed. Ymhlith hobïau hamdden eraill mae garddio, coginio, ffotograffiaeth, paentio, gwnïo a llawer mwy. Mae gweithgareddau cymdeithasol, clybiau chwaraeon a

chwaraefannau plant hefyd yn boblogaidd. Mae chwaraeon yn ymwneud â moduron hefyd yn boblogaidd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn gymharol wantan o fewn y gymuned. Byddai pob pentref yn elwa'n fawr o welliannau i gyfleusterau cyfredol neu o gael cyfarpar a mannau chwarae newydd.

Mae Clybiau Ffermwyr Ieuanc, clybiau ieuenctid, disgos a chlybiau drama yn hynod boblogaidd. Dangoswyd diddordeb mewn sefydlu brownies, cybiau, sgowtiaid a geidiaid yn y dyfodol o bosib. Ymhlith yr adeiladau yr awgrymwyd y gellid sicrhau eu bod ar gael ar gyfer defnydd mwyniant mae Neuadd CFfI Llys-y-frân a Festri Eglwys Y Mot o'i haddasu.

Cynigion

- Awgrymir archwilio'r Parc Gwledig yn Llys-y-frân o ran cyfleusterau hamdden posib. Gallai'r rhain gynnwys Clwb Cychod Cymunedol, teithiau cerdded tywysedig trwy'r gelltydd, teithiau merlota, badminton, parc sglef-fyrddio, llwybrau seiclo, maes chwarae a chwrt tenis.
- **Cefnogi gweithgareddau ieuenctid trwy'r ardal gyfan.** Darparu mwy o gyfleusterau chwaraeon megis criced a phêl-droed, gweithgareddau hamdden, yn cynnwys maes chwarae antur, cwrt tenis, cwrs golff bychan, maes pêl-fasged, parc chwarae a chwrs rhwystrau seiclo (parc seiclo).

7 – Tai

Sylwadau

Mae gan y cyfartaledd uchel o blant o fewn y gymuned goblygiadau penodol o ran cynllunio anghenion tai o fewn y gymuned yn y dyfodol. Mynegir consýrn ynghylch prinder llety fforddadwy.

Cynigion

Ysgol Penffordd – Yn unol â'r dymuniad i gadw'r ysgol er lles cymunedol . . . ar gyfer pobl leol - ymchwilio i'r posibilrwydd o'i ddatblygu fel darpariaeth dai fforddadwy o ran rhenti neu ar brydles